

PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Cofnodion Cyfarfod O Bell Eithriadol a gynhaliwyd ar 2 Hydref, 2024.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Cynghorydd E. Goodjohn (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, R. Fisher, C.P. Franks, H.C. Hamilton, S.M. Hanks, Dr. I.J. Johnson, B. Loveluck-Edwards a N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr I.R. Buckley, L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau), W.A. Hennessy ac G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles).

436 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

437 DATGANIADAU BUDDIANT –

Y Cynghorwyr G.D.D. Carroll, C.P. Franks a B. Loveluck-Edwards datganodd fuddiant personol sef eu bod yn Llywodraethwyr ysgolion y Fro, ond nid oedd y materion a oedd gerbron y Pwyllgor yn cael eu hystyried yn rhai oedd yn rhagfarnu gan fod yr adroddiadau yn rhai cyffredinol.

438 CAU CYFRIFON 2023/24 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y DYLID ystyried y cyfeiriad ar y cyd ag Eitem 4, Adroddiad y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, fel y nodir isod.

Rheswm dros yr argymhelliad

Er mwyn gallu ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad gyda'i gilydd.

439 CAU CYFRIFON 2023/24 (CAC) –

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 yr adroddiad gan nodi y wynebodd y Cyngor bwysau refeniw sylweddol yn ystod 2023/24, gan gyfeirio'n benodol at bwysau

chwyddiant o ran contractau a phwysau cyflog (a oedd yn adlewyrchu costau byw, pwysau'r farchnad ac ymrwymiad y Cyngor i dalu'r cyflog byw gwirioneddol).

Hefyd, parhaodd y Cyngor i brofi pwysau galw sylweddol i gefnogi'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Digartrefedd a disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ystod 2023-24.

Roedd sefyllfa refeniw diwedd y flwyddyn yn un adennill costau ar ôl trosglwyddiadau net o £34.235m, gan gynnwys £417k a drosglwyddwyd o Gronfa'r Cyngor, £12.961m o'r Cyfrif Refeniw Tai, £11.785m a drosglwyddwyd i gronfeydd wrth gefn penodol o refeniw a £12.078m a drosglwyddwyd o gronfeydd wrth gefn penodol i ddarparu cyllid untro ar gyfer prosiectau a gorwariant, a £8.779m a dynnwyd i lawr o gronfeydd wrth gefn i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf ac ar gyfer dadleoli a oedd yn ofynnol gan grantiau cyfalaf. £11.106 miliwn oedd yng Nghronfa'r Cyngor ar 31 Mawrth 2024.

Roedd targedau arbedion ac effeithlonrwydd heriol wedi'u gosod ar gyfer 2023/24 ac roedd hyn yn cynnwys targed o £2.75m ar gyfer ysgolion a £4.628m o arbedion corfforaethol. Adlewyrchwyd y cynnydd yn erbyn y targedau arbedion hyn yn atodiad yr adroddiad ac, er bod gwasanaethau wedi lliniaru rhywfaint o arbedion yn ystod y flwyddyn yn 2023/24, byddai'r arbedion hyn yn cael eu hadolygu yn 2024/25 wrth i wasanaethau symud i nodi'r rheini a oedd ar sail fwy cynaliadwy dros y tymor canolig.

Ar ôl ystyried symudiadau Cyfarwyddiaeth i mewn ac allan o gronfeydd wrth gefn, dangosodd yr alldro refeniw warged o £2.080 miliwn y cynigiwyd ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn i'w ddefnyddio fel a ganlyn:

- £2 miliwn - Sefydlu cronfa wrth gefn newydd i wrthbwysio diffygion addysg yn 2024/25 dros dro tra bod y Cyngor yn gweithio gydag ysgolion ar sefydlu dull cydlynol o fynd i'r afael â diffygion mewn ysgolion;
- Roedd y balans o £80k wedi'i drosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

Rhagwelwyd y byddai'r Cyfrif Refeniw Tai yn tynnu ychydig llai i lawr o'r gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi o £12.961 miliwn i leihau lefel ei gronfa wrth gefn i £3.525 miliwn, y credwyd ei bod yn rhesymol yng nghyd-destun y pwysau yn y gwasanaeth yn 2024/25.

Gostyngodd lefel y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy yn ystod y flwyddyn er yn llai na'r hyn a ragwelwyd ond roedd rhai o'r ymrwymadau hyn wedi llithro i 2024/25 yn unol â llithriad Gwariant Cyfalaf. Roedd y Cyngor hefyd wedi cynnal ymarfer ailddyrannu cronfeydd wrth gefn arall yn ystod y flwyddyn, fel yr amlinellwyd yng nghynigion cyllideb 2024/25, ac adlewyrchwyd hyn yn y sefyllfa alldro. I'w nodi hefyd, dywedodd y Swyddog Adran 151 oedd bod casgliadau'n gwella ac mae'r Tîm wedi bod yn effeithlon wrth gasglu dyled hanesyddol. Roedd mwyafrif yr ysgolion hefyd wedi sicrhau cyllideb wedi'i mantoli ac roedd swyddogion cyllid a'r adran Addysg yn gweithio gydag ysgolion i fynd i'r afael â'r rhai mewn diffyg.

Holodd y Cadeirydd am y gwaith a oedd yn cael ei wneud gydag ysgolion a dywedodd y Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg fod cymorth cymheiriaid yn cael ei gynnig,

adolygiadau o gontractau a gwariant asiantaethau, cynllunio'r cwricwlwm a dull mwy strategol o gaffael. Awgrymodd y Cadeirydd hefyd y gallai fod yn briodol i'r Cyngor ystyried swyddog caffael pwrpasol ar gyfer ysgolion y credai y byddai'n fwyaf buddiol.

Holodd y Cynghorydd Loveluck-Edwards ba asesiad a wnaed i sicrhau bod Cyrff Llywodraethu ysgolion cynradd â chyllidebau diffygiol yn cael y cymorth a'r arweiniad cywir. Dywedodd y Swyddog Adran 151 mewn ymateb fod y swyddogion cyllid a'r adran Addysg yn gweithio'n agos gyda Phenaeithiaid. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg ymhellach fod gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i adolygu'r hyfforddiant Cyllid a ddarparwyd i Lywodraethwyr ac y byddai'n siarad ymhellach â chydweithwyr ynghylch pa waith arall a allai fod yn cael ei ystyried a chynghori'r Aelodau yn briodol.

Gofynnodd y Cynghorydd Dr. Johnson a ellid nodi yn adroddiadau'r dyfodol fanylion ynghylch defnydd a gynlluniwyd ac nas cynlluniwyd o gronfeydd wrth gefn a hefyd fod yr adroddiadau'n nodi a oedd yr arian a glustnodwyd mewn cronfeydd wrth gefn yn ddigonol ai peidio ar gyfer y pwysau a nodwyd. Wrth gyfeirio at gyllidebau diffyg ysgolion cynradd a'r cronfeydd wrth gefn mewn cyllidebau ysgolion uwchradd, holodd sut y gallai'r Cyngor fynd ati i ddatrys hyn. Dywedodd y Swyddog Adran 151 o ran yr ymholiadau sy'n ymwneud â chaffael a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, y byddai'n trafod hyn gyda'i gydweithwyr Addysg, fodd bynnag, o ran cyllidebau diffyg ysgolion cynradd, nid oedd unrhyw ateb y gallai ei ddarparu ar hyn o bryd gan fod hyn yn cael ei ddatrys drwy ddefnyddio fformiwla a lywodraethir gan reoleiddio. Fodd bynnag, dywedodd fod y Fforwm Cyllideb Ysgolion a'r Grŵp Tasg Ysgolion yn ymwybodol iawn o'r sefyllfa. Roedd y fformiwla cyllid ysgolion wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd gyda nifer y disgyblion mewn ysgol yn brif sbardun ar gyfer dyraniadau'r gyllideb, roedd Cyngor y Fro hefyd wedi rhoi cymaint o gyllid â phosibl yn barhaus i gyllidebau ysgolion. Roedd nifer o sleidiau PowerPoint y gallai swyddogion drefnu i'w rhannu â'r Aelodau a oedd yn nodi sut y cyfansoddwyd y cyllidebau, er gwaethaf y ffaith bod yn rhaid i'r Cyngor reoli'r pwysau yn erbyn yr arian a gafodd. Dywedodd y Cynghorwyr Carroll a Franks eu bod yn cefnogi'r awgrym am gymorth / cyngor ariannol pellach i Gyrrff Llywodraethu gan ystyried y cyllidebau diffyg y mae rhai o'r ysgolion yn eu cael eu hunain ynddynt.

Wrth gydnabod y pwysau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, gofynnodd y Cynghorydd Dr. Johnson ba bwysau y gellid eu rhoi ar Lywodraeth Cymru (LIC) i weithredu ar faterion o'r fath. Dywedodd y Swyddog Adran 151, fel Cyngor, fod amrywiaeth o lobïo drwy CLILC, LIC, Cymdeithas Trysoryddion Cymru, yn ogystal ag arolygon pwysau costau yn digwydd. Dywedodd fod yr Arweinydd hefyd, drwy sgysiau gyda LIC, yn pwyso am gyfran well o gyllid.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd.
- (2) NODI dyraniad gwarged cyffredinol y Cyngor fel y nodir isod:

- £2m o drosglwyddiad i gronfa wrth gefn newydd i wrthbwysu diffygion ysgolion ar sail dros dro yn 2024/25;
- £80k i Gronfa'r Cyngor i wrthbwysu pwysau cyffredinol.

(3) BOD sylwadau'r Pwyllgor a wnaed yn y cyfarfod uchod yn cael eu cyfeirio at y Cabinet a bod y Cabinet yn ystyried y canlynol -

- Ystyried swyddog caffael penodedig ar gyfer ysgolion;
- Bod ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i gyrff Llywodraethol gael cymorth ac arweiniad pellach mewn perthynas â diffygion yng nghyllideb ysgolion;
- Bod adroddiadau cau cyfrifon yn y dyfodol yn manylu ar ddefnydd arfaethedig a heb ei gynllunio o'r cronfeydd wrth gefn a bod yr adroddiadau hefyd yn nodi'r manylion ynghylch a oedd yr arian a glustnodwyd yn y cronfeydd wrth gefn yn ddigonol ai peidio ar gyfer y pwysau a nodwyd.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

440 CAU CYFALAF CYFRIFON 2023/24 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2024 fel y cynhwyswyd o fewn yr agenda. Tynnodd y Swyddog Adran 151 sylw'r Pwyllgor at Atodiad 2 i'r adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf gan y Gyfarwyddiaeth i 31 Mawrth 2024. Bu angen ychwanegu nifer o gynlluniau gwerth cyfanswm o £5.395m yn hwyr yn y Rhaglen a nododd yr adroddiad y Rhaglen wedi'i haddasu gyffredol o £103.829m a gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn o £88.620m.

Yn dilyn ymholiad gan y Cyngorydd Dr. Johnson ynghylch a fyddai'r llithriad o £15m a ddyfynnir yn y tabl yn yr adroddiad yn cael ei wario dros y flwyddyn nesaf, dywedodd y Swyddog Adran 151 y byddai'n casglu'r wybodaeth ac yn cynghori'r Aelodau yn unol â hynny.

ARGYMHELLWYD – NODI argymhellion y Cabinet.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

441 ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2023/24 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet o 18 Gorffennaf 2024 fel y nodwyd yn yr agenda, a nodwyd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor o dan Reoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 Iunio Adolygiad Blynyddol o Reoli'r Trysorlys o weithgareddau a'r dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol ar gyfer 2023/24. Bodlonodd yr adroddiad hefyd ofynion Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r

Trysorlys (y Cod), Cod Darbodus CIPFA ar gyfer Ariannu Cyfalaf Awdurdodau Lleol (y Cod Darbodus) a Chanllawiau Diwygiedig Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol (Ebrill 2010). Dywedodd y Swyddog Adran 151 fod yr adroddiad yn dangos cydymffurfiaeth fel y nodir yn Strategaeth Buddsoddi'r Trysorlys a luniwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Gosodwyd Strategaeth y Trysorlys ar gyfer 2023/24 gan dybio gwariant arfaethedig o £103.968m wedi'i rannu (£58.949m Cronfa Gyffredinol a £45.019m CRT). Y gyllideb derfynol ar gyfer 2023/24 oedd £103.829m (£56.243m Cronfa Gyffredinol a £47.586m CRT). Cyfalaf yr alldro oedd £88.620m, amrywiant o £15.209m a oedd yn bennaf oherwydd llithriad. Gwnaed cais am lithriad o £15.013m, £8.292m ar gyfer y Gronfa Gyffredinol a £6.721m ar gyfer CRT.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn credu bod y term "dan fenthyg" yn derm diddorol a holodd beth oedd mantais dan fenthyg i'r Awdurdod. Dywedodd y Swyddog Adran 151 fod yna gwpl o fudd-daliadau yr oedd yn ddrutach eu benthyca a hefyd ei fod yn lleihau'r risg o fenthyca ar fuddsoddiadau gyda thrydydd partïon ac roedd y Cyngor yn ofalus ynglŷn â phwy yr oedd yn benthyca iddyn nhw. Holodd y Cadeirydd hefyd ynghylch sut y mae'r Cyngor yn mynd ati i osod terfyn awdurdodedig a sut y cyfrifwyd y ffiniau gweithredol. Mewn ymateb i hyn dywedodd y Swyddog Adran 151 eu bod yn cael eu gosod o amgylch fforddiadwyedd yn gyffredinol gyda golwg ar ymrwymiad cyfalaf y Cyngor yn y dyfodol. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg fod ffiniau gweithredol yn cael eu hystyried yn gyfyngiad a osodwyd gan y Cyngor ac na fyddai'n gwthio'r terfyn o ran benthyca ac, wrth eu gosod, roedd angen i'r Cyngor feddwl faint o gyllid cyfalaf yr oedd angen ei fenthyca a hefyd beth fyddai ei lifau arian parod mewn mis, h.y. y gyflogres a threuliau cyfrifon sy'n daladwy. Y terfyn awdurdodedig oedd y terfyn na fydddech chi byth eisiau ei wthio ac roedd tuedd i'r Cyngor roi rhywfaint o glustog i'w hun yn hyn o beth. Fodd bynnag, os ystyriwyd bod angen ei wthio, byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau i'w gymeradwyo ar unwaith.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dr. Johnson at Dablau 7 ac 8 a pharagraff 2.23 a gofynnodd am y ddyled newydd a adroddwyd am Wasanaethau Cyhoeddus o £5 miliwn am esboniad manylach ynglŷn â hyn a chyfanswm y ddyled gan ei bod yn gostwng £5 miliwn dros y flwyddyn a hefyd yn Nhabl 10 roedd y ddyled yn gostwng o £94 miliwn i £34 miliwn. Dywedodd y Swyddog Adran 151, wrth i gyfanswm y cronfeydd wrth gefn a'r balansau ostwng, y byddai'r buddsoddiadau hefyd yn gostwng a byddai llifau arian parod yn amrywio o un flwyddyn i'r llall. Holodd y Cynghorydd Dr. Johnson beth oedd y benthyciad consesiynol y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol mai benthyciad gan Lywodraeth Cymru oedd hwn a oedd yn fenthyciad di-log, roedd yr ad-daliad yn ddyledus ac roedd y cyfnod wedi'i ymestyn i 2025 a fu'n gysylltiedig â'r cynllun adfywio.

Gan nad oedd unrhyw gwestiynau pellach, roedd wedi hynny

ARGYMHELLWYD – DERBYN yr Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Trysorlys 2023/24.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

442 MONITRO REFENIW CHWARTER 1 2024/25 (CAC) –

Nododd yr adroddiad fod y sefyllfa refeniw ar gyfer 2024/25 yn parhau i adlewyrchu galw heriol a phwysau chwyddiant gan barhau â'r pwysau gwasanaeth allweddol a welwyd yn sefyllfa alldro 2023/24 yn 2024/25. Cafodd y pwysau cost a ddyrannwyd fel rhan o gyllideb 2024/25 eu haddasu i adlewyrchu'r cyllid a oedd ar gael, ac felly nid oeddent yn darparu cyllid llawn ar gyfer pwysau, ac roedd y pwysau hyn wedi parhau i gynyddu yn chwarter cyntaf 2024/25. Roedd tystiolaeth o alw cynyddol mewn perthynas â Gofal Plant a Phobl Ifanc a Gofal Cymdeithasol Oedolion gan adlewyrchu mwy o achosion a chymhlethdod o ran angen yn ogystal â chynnydd sylweddol yng nghost lleoliadau a pheccynnau gofal. Parhaodd cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn faes o bwysau sylweddol o fewn Dysgu a Sgiliau gyda phwysau cyfatebol ar gostau trafndiaeth ysgol ar gyfer disgyblion yn y ddarpariaeth ADY.

Ar draws y gwasanaethau roedd pwysau chwyddiant hefyd yn cael eu profi yng nghyswllt cyflogau, yn fwyaf nodedig lle'r oedd grymoedd y farchnad yn cael eu defnyddio ac o ran y bwlch cyllido rhwng y dyfarniad cyflog ar gyfer 2024/25 a'r dyfarniad cyflog tebygol ar gyfer 2024/25. Dim ond chwyddiant cytundebol cyfyngedig iawn a ddyrannodd y Cyngor fel rhan o gyllideb 2024/25 a dim chwyddiant cyffredinol ers rhai blynyddoedd a byddai hyn yn cael effaith gyffredinol ar wydnwch y gyllideb refeniw. Byddai'r oedi ar weithredu arbedion hefyd yn effeithio ar alldro 2024/25 ar draws gwasanaethau.

Nodwyd bod y defnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn oddeutu £13.629 miliwn ac roedd gan y Cyngor ffrydiau gwaith amrywiol yn mynd rhagddynt i liniaru'r defnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn a lleihau gorwariant yn ystod y flwyddyn. Roedd targedau arbedion ac effeithlonrwydd heriol wedi'u gosod ar gyfer 2024/25, gan gynnwys targed o £7.676m o arbedion Corfforaethol. Adlewyrchwyd y cynnydd yn erbyn y targedau arbedion hyn yn Atodiad yr adroddiad. Parhaodd y Cyngor hefyd i fonitro'r gwaith o gyflawni arbedion 2023/24 heb eu cyflawni yn ystod y flwyddyn.

Holodd y Cadeirydd pam y dyrannwyd arian cytundebol cyfyngedig iawn. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y Cyngor wedi dyrannu targedau chwyddiant cytundebol penodol, er enghraifft cludiant ysgol a'r pwysau cartref preswyl a oedd wedi amlygu'r Cyngor i bwysau chwyddiant byd-eang, ac o ganlyniad roedd y Cyngor wedi ceisio creu arbedion ychwanegol mewnol.

Holodd y Cynghorydd Loveluck-Edwards a oedd y dull gweithredu yr oedd y Fro yn ei ddilyn yn wahanol i Awdurdodau Lleol eraill. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod pob Cyngor yn rhannu gwybodaeth yn anffurfiol, roedd Grŵp Trysoryddion a Grŵp Prif Gyfrifwyr a oedd yn cyfnewid gwybodaeth yn rheolaidd ac y byddai mwy o bwyslais ar feincnodi ac adolygu arfer da a rhannu syniadau da wrth symud ymlaen. Dywedodd y Cynghorydd Loveluck-Edwards ei bod yn awyddus i sicrhau bod y neges yn cael ei chyfleu i'r cyhoedd a bod eu barn yn cael ei chlywed a'i bod yn bwysig nad oedd y Cyngor yn cilio oddi wrth yr heriau cynyddol yr oedd yn eu hwynebu. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y gwaith ymgysylltu sy'n cael ei

wneud yn rhan bwysig o'r broses o osod y gyllideb er bod cydweithwyr mewnol yn ystyried sut i ymgysylltu'n well a darparu gwybodaeth addysgiadol ac i sicrhau bod negeseuon a heriau'r Cyngor yn cael eu cyfleu.

Wrth gyfeirio at yr Atodiad a'r statws Coch ar gyfer gwahanol gamau gweithredu o dan y Gwasanaethau Cymdeithasol, holodd y Cynghorydd Dr. Johnson a oedd rhagor o wybodaeth yn hyn o beth. O ran Swyddfeydd y Dociau, holodd hefyd sut roedd hyn yn datblygu, yn enwedig o ran cyllid adfywio Llywodraeth y DU.

Dywedodd y Swyddog Adran 151 fod yna gwpl o ffynonellau cyllid yr oedd y Cyngor yn eu hystyried, y Cyllid Trefi a hefyd y Gronfa Ffyniant Bro ac mae'r Cyfarwyddwr Lle wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth y DU ar y ddau fater hyn. Fodd bynnag, rhagwelir y byddai'r Cyngor yn gwybod mwy erbyn 30 Hydref 2024 pan gyhoeddir cyllideb Canghellor y DU.

O ran y Gwasanaethau Plant, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod nifer o arbedion i'w gwneud yn y Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc a allai fod yn gadarnhaol er ei bod yn bwysig sicrhau bod y lleoliadau cywir yn cael eu gwneud.

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2024/25 yr Awdurdod.
- (2) NODI'r trosglwyddiadau a gynhwyswyd fel rhan o'r adroddiad.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

443 MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 MEHEFIN, 2024 (CAC) –

Rhoddodd yr adroddiad yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill i 30 Mehefin, 2024. Dangoswyd y manylion fesul cynllun yn Atodiad 1 yr adroddiad. Rhoddodd Atodiad 2 yr adroddiad grynoded o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth o gymeradwyaeth yng nghyfarfod y Cyngor ar 6 Mawrth 2024 i 30 Mehefin 2024, gan gynnwys unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt o fewn yr adroddiad. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2024/25 a blynyddoedd y dyfodol.

Nododd yr adroddiad y Rhaglen gymeradwy gyfredol o £139.927 miliwn. Yn ogystal, dywedwyd wrth y Pwyllgor bod llawer o feysydd yn parhau i wynebu costau cynyddol ynglŷn â chyflawni cynlluniau. Roedd tendrau'n cael eu derbyn dros y cyllidebau cyfredol a ddyrannwyd ac roedd swyddogion yn adrodd am y gofyniad i ail-drafod tendrau a gyflwynwyd. Byddai cynlluniau hefyd yn cael eu monitro'n agos dros y misoedd nesaf a rhagwelwyd y byddai gofyn am geisiadau llithriad mewn adroddiadau yn y dyfodol. Byddai swyddogion yn parhau i weithio gyda rheolwyr a noddwyr prosiectau i sicrhau gwerth am arian a bod yr holl gyfleoedd cyllido posibl yn cael eu nodi a'u harchwilio'n llawn.

Gwnaeth y Cynghorydd Dr. Johnson sylw ar y £140 miliwn o wariant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol o £100 miliwn, a gofynnodd a oedd y Cyngor yn hyderus ei fod yn gwario'r arian yn unol â'i fwriad. Gwnaed sylwadau hefyd ynghylch y llithriad o £5 miliwn i Ysgol y Deri gan ystyried y ffaith bod y contractwyr wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol ei bod yn disgwyl y bydd llithriad pellach gan fod nifer o heriau wrth gyflawni mewn cysylltiad ag ystod eang o brosiectau ac roedd rhai yn gynlluniau sylweddol a chymhleth. Wrth gyfeirio at y Rhaglen Gwella Tai dywedodd fod gan y Cyngor gyfradd ffafriol ar gyfer benthyca tai ac y byddai'n parhau i adolygu'r cyfraddau.

Awgrymodd y Cadeirydd, wrth ddeall y pwysau ar geisiadau a oedd yn uwch na chyllideb y Cyngor, fod y Cyngor yn ystyried dull gwahanol, gan gyfeirio o bosibl at yr awgrym bod y Cyngor, cyn comisiynu gwaith, yn cyhoeddi pris uchaf sefydlog gan ddweud bryd hynny y byddai unrhyw geisiadau a dderbynnir dros y pris uchaf yn cael eu datgymhwyso. Cytunodd y Rheolwr Gweithredol i gymryd yr awgrym i'w Dîm Caffael i'w ystyried.

Wedi ystyried yr adroddiad, yr oedd wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r cynnydd a wnaed ar gyflawni Rhaglen Gyfalaf 2024/25 o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor yn Atodiad 1 sydd ynghlwm.
- (2) NODI'r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y nodir yn yr adroddiad.
- (3) NODI'r defnydd o bwerau Argyfwng o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, y manylwyd arnynt yn Atodiad 1 i'r adroddiad.
- (4) Y DYLID nodi'r newidiadau i Raglen Gyfalaf 2024/25 a Rhaglen Gyfalaf y blynyddoedd i ddod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y nodir yn yr adroddiad.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-4) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

444 STRATEGAETH ARIANNOL 2025/26 i 2029/30 (CYF) –

Roedd y Cabinet wedi cyfeirio'r adroddiad i'r Pwyllgor Craffu i'w ystyried, gan nodi mai diben yr adroddiad oedd gosod y strategaeth ar gyfer datblygu cyllideb 2025/26 y Cyngor a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2025/26 i 2029/30. Nid oedd fawr o hyblygrwydd cyllidebol gydag 81% o gyllideb y Cyngor wedi'i ymrwymo i Addysg, Tai, Gofal Cymdeithasol a chymorth y Dreth Gyngor. Rhagwelwyd mai'r bwch cyllid ar gyfer 2025/26 fyddai £9.392 miliwn, a £34.5 miliwn dros gyfnod o 5 mlynedd. Roedd y ffigurau hyn yn debygol o dyfu oherwydd pwysau sy'n dod i'r amlwg a oedd yn destun adolygiad.

Ers i'r adroddiad gael ei baratoi, dywedodd y Swyddog Adran 151 y bu rhai newidiadau o ran sut y cafodd ei lunio o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, yn enwedig codi ymwybyddiaeth sylweddol o'r hyn y gwariodd y Cyngor ei arian arno a sut y cafodd ei ariannu. Dywedodd y Swyddog Adran 151 hefyd fod y Cyngor yn Awdurdod a ariennir yn isel a'i fod wedi gosod lefel gymharol isel o Dreth Gyngor o'i gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill, gan nodi ymhellach fod diffyg hyblygrwydd yn ei wariant oherwydd ei fod wedi'i ymrwymo i nifer o feysydd. Roedd y Cyngor hefyd yn canolbwyntio ar osod y Cynllun Corfforaethol a chynlluniau ar gyfer ymgynghori, wrth dderbyn ei fod yn gyfnod heriol iawn i lywodraeth leol ni waeth beth oedd canlyniad yr etholiad cyffredinol eleni. Roedd y gyfradd chwyddiant yn uwch na'r disgwyl, bu cynnydd hefyd mewn rhenti sector preifat o hyd at 18% dros y ddwy flynedd ddiwethaf ym Mro Morgannwg a byddai'r Cyngor yn adolygu ei bwysau costau ymhellach ac yna'n adrodd i'r Cabinet. Bu newid hefyd mewn pwyslais gyda'r Strategaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod o ran nodi mesurau drwy ail-lunio a thrawsnewid. Roedd diweddariad y rhaglen ail-lunio i gael ei ddwyn gerbron y Cabinet i'w ystyried cyn bo hir. Roedd hefyd yn bwysig sicrhau bod y cronfeydd wrth gefn yn cyfateb i risgiau'r Cyngor a byddai nifer o adroddiadau pellach yn dod drwodd dros y misoedd nesaf ac yn benodol bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ym mis Ionawr 2025. Roedd yn debygol y byddai setliad Llywodraeth Cymru yn cael ei adrodd erbyn 11 Rhagfyr 2024.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dr. Johnson, wrth wneud sylwadau bod y Cyngor a Llywodraeth Leol wedi cael degawd anodd i fynd i'r afael ag ef, at y diffyg cyllid a dderbyniwyd gan San Steffan a sut y cafodd ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru. Roedd yn gobeithio y byddai'r Cyngor yn derbyn newyddion da gan Ganghellor y DU ddiwedd y mis ac yna gan Weinidogion Llywodraeth Cymru yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Holodd y Cynghorydd Ewan Goodjohn pam mae'r Cyngor wedi amcangyfrif dyfarniad cyflog o 2% ac a oedd yn barod i gyllidebu am fwy bellach. Dywedodd y Swyddog Adran 151 mai 2% oedd y rhagolygon ym mis Mawrth yn unol â tharged y Trysorlys ar gyfer chwyddiant, ond ei bod yn debygol y byddai angen i'r Cyngor ddiwygio ei gyllideb sylfaenol bellach. Gofynnodd y Cynghorydd Goodjohn hefyd a fu unrhyw welliant yn y modelu wrth geisio darganfod pryd y derbyniodd y Cyngor grantiau yn ogystal â pha mor debygol oedd hi y byddent yn derbyn grantiau. Dywedodd y Swyddog Adran 151 fod yn rhaid diwygio'r gyllideb a'i diweddaru'n rheolaidd yn ystod y flwyddyn gan hysbysu bod rheoli llif arian yn anoddach ar yr ochr gyfalaf yn hytrach na'r ochr refeniw. O ran cost ariannu cyfalaf, roedd rhywfaint ohono yn ymwneud â defnyddio cronfeydd wrth gefn ac roedd y Cyngor yn ceisio cysylltu'r rhagamcanion hyn yn fanylach. I gloi, dywedodd y Cynghorydd Goodjohn ei bod hefyd yn bwysig ystyried prosiectau buddsoddi i arbed a meddwl tybed a oedd unrhyw le ar gyfer unrhyw raglenni buddsoddi / buddsoddi i arbed arall er enghraifft drwy'r swyddogaeth gaffael. Dywedodd y Swyddog Adran 151 mewn ymateb i hyn ei fod yn agored i ystyried unrhyw syniad ac yn sicr y gellid eu harchwilio, fodd bynnag, roedd angen iddo fod yn glir gyda'i gydweithwyr ynglŷn â disgwyliadau.

O ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad a'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, dyna a wnaed wedyn

ARGYMHELLWYD – Y DYLLID cyfeirio sylwadau'r Pwyllgor Sgrwtini yn ôl i'r Cabinet i'w hystyried, yn enwedig o ran buddsoddi mewn prosiectau gwario i arbed ac yn ymwneud â swyddogaeth caffael strategol.

Rheswm dros yr argymhelliad

Ystyried yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor ac ystyried cyfleoedd eraill i gynorthwyo.